**COFNODION Y CYFARFOD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 18 Mehefin 2002 |
| **Amser:** | 9am |
| **Lleoliad:** | Ystafell A3.13 |

**Yn bresennol:**
John Marek, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Jonathan Morgan, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau (eitem 6 ar yr agenda)
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Uned Busnes y Cynulliad
Alun Jenkins, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)
Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Siambr / YP y Dirprwy Lywydd

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol**

**(i) BC183-02 (Terfynol) Dydd Mawrth 11 Mehefin 2002**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Gan na chafwyd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu, yn barod i'w cyhoeddi.
**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**(ii) BC192-02 (Drafft) Dydd Mawrth 28 Mai 2002**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan na chafwyd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu, yn barod i'w cyhoeddi.
**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**3. Materion yn codi (BC192-02 Dydd Mawrth 11 Mehefin 2002)**
**4. Is-ddeddfwriaeth**
**(a) Gorchmynion i'w hystyried**

Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Ffioedd) (Diwygio) 2002 (BC194-02)
*Rheol Sefydlog 23, Adran 3*

Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2002 (BC195-02)
*Gweithdrefn a argymhellir: Carlam*

Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cwmnïau) (Diwygio) (Cymru) 2002 (BC196-02) *Gweithdrefn a argymhellir: Carlam*

Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif.3) (Cymru) 2002 (BC197-02) *Gweithrefn a argymhellir: Safonol*

Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2002 (BC198-02)
*Gweithdrefn a argymhellir: Safonol*

Gorchymyn Rheoli Swn (Codau Ymarfer ar gyfer Safleoedd Adeiladu a Safleoedd Agored) (Cymru) 2002 (BC199-02) *Gweithdrefn a argymhellir: Carlam*

Gorchymyn Deddf Digartrefedd (Cychwyn) (Cymru) 2002 (BC200-02)
*Gweithdrefn a argymhellir: Carlam*

Rheoliadau Porthiant (Diwygio) (Cymru) 2002 (BC201-02)
*Gweithdrefn a argymhellir: Carlam*

Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Dros Dro a Therfynol) (Cymru) 2002 (BC202-02) *Gweithdrefn a argymhellir: Safonol*

Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gweithdrefnau Apelau) (Cymru) 2002 (BC203-02) *Gweithdrefn a argymhellir: Safonol*

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Buddsoddiadau wedi'u cymeradwyo) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2002 (BC204-02) *Gweithdrefn a argymhellir: Carlam*

Rheoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Dyfarndaliadau Addysg Ol-orfodol) (Cymru) 2002 (BC205-02) *Gweithdrefn a argymhellir: Carlam*

Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) 2002 (BC206-02) *Gweithdrefn a argymhellir: Carlam*

4.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papurau BC194-02 i BC206-02 a oedd yn rhoi cyngor ar drin y gorchmynion hyn.  Nododd y Dirprwy Lywydd fod BC195-02, BC205-02 a BC206-02 wedi'u postio i'r fewnrwyd yn hwyr, er eu bod wedi bod ar y fewnrwyd am ddau benwythnos.

4.2 Dywedodd y Dirprwy Lywydd nad oedd BC194-02 wedi ymddangos ar y fewnrwyd dros ddau benwythnos.  Dywedodd Alun Jenkins nad oedd hi'n ofynnol, yn ôl y Rheolau Sefydlog, i orchmynion a gâi eu gwneud o dan Reol Sefydlog 23, Adran 3, gael eu postio i'r fewnrwyd.  Fodd bynnag, roedd y Trefnydd blaenorol wedi dweud y byddai'n ymdrechu i bostio gorchymynion o'r fath i'r fewnrwyd 5 diwrnod gwaith cyn iddynt gael eu hystyried gan y Pwyllgor Busnes. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y dylid sicrhau bod y gorchmynion ar gael dros ddau benwythnos, lle bynnag y bo'n bosibl, i ddibenion archwilio ac atebolrwydd.  Gofynnodd i Drefnydd y Cynulliad ofyn i Adrannau Llywodraeth

y DU sicrhau bod gorchmynion drafft ar gael mewn da bryd i alluogi Aelodau'r Cynulliad i roi ystyriaeth ddyledus iddynt. Gofynnodd Trefnydd y Cynulliad i'r Dirprwy Lywydd amlinellu ei bryderon mewn llythyr a byddai'n dwyn y llythyr i sylw ei gydweithwyr yn y Cabinet.

4.3 Dywedodd y Diprwy Lywydd fod paragraffau 5 a 6 Memorandwm Esboniadol BC200-02 wedi cyfeirio at y costau ychwanegol i awdurdodau lleol yn sgil y gorchymyn. Fodd bynnag, roedd y Gweinidog wedi dod i'r casgliad bod Arfarniad Rheoliadol yn amhriodol gan fod yr Offeryn yn dod â deddfwriaeth sylfaenol i rym. Dywedodd y Dirprwy Lywydd nad oedd hyn yn ymddangos yn rheswm priodol dros beidio â chael arfarniad rheoliadol ac y gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru wynebu achos cyfreithiol. Dywedodd Jocelyn Davies bod angen eglurhad ar y mater. Dywedodd y Trefnydd y byddai'n paratoi papur ar y mater.
**Camau i'w cymryd: Trefnydd y Cynulliad i baratoi papur.**

4.4 Dywedodd y Dirprwy Lywydd y gallai rhywun feddwl bod y Memoranda Esboniadol sydd ynghlwm wrth nifer o'r gorchmynion drafft yn dibrisio rôl pwyllgorau. Gofynnodd Trefnydd y Cynulliad i'r Dirprwy Lywydd ysgrifennu ato yn egluro'i bryderon.

4.5 Gofynnodd Jocelyn Davies am ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar BC200-02 a BC205-02. Dywedodd y Trefnydd y byddai'n ystyried y cais hwn. Cytunodd y Pwyllgor ar y gweithdrefnau a oedd wedi'u hargymell ar gyfer gweddill y gorchmynion drafft.

**Penderfynodd y Llywydd wedyn nad oedd angen cyfeirio'r Gorchmynion hyn i bwyllgor pwnc.**

**<u>(b) Gorchmynion a wnaed dan y Weithdrefn Weithredol; papurau i'w nodi.</u>**

<u>BC207-02</u>

4.6 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Drefnydd y Cynulliad ar y defnydd o'r weithdrefn weithredol ar gyfer y *General Opthalmic Services: Increase in the NHS Sight Test Fee and Consequential Amendment to the National Health Service Optical Charges and Payment Regulations*. Nododd y Dirprwy Lywydd y cyfeiriad yn y llythyr at ddirprwyo'r penderfyniad i staff. Fodd bynnag, nid oedd Gweinidogion yn hysbysu Swyddfa'r Llywydd o'r penderfyniadau hyn fel bod modd eu cyhoeddi dan Reol Sefydlog 30.1. Cytunodd y Gweinidog y byddai'n archwilio'r sefyllfa ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.
**Camau i'w cymryd: Trefnydd y Cynulliad i adrodd yn ôl.**

<u>BC208-02</u>

4.7 Nododd y Pwyllgor yr e-bost wrth Ysgrifenyddiaeth y Cabinet at Aelodau ar ddefnyddio'r Weithdrefn Weithredol i wneud *The National Health Service (Optical Charges and Payments) (Amendment) (No.2) (Wales) Regulations 2002*.

**(c) Llythyrau o Bwyllgorau; papurau i'w nodi.**

4.8 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar restr o is-ddeddfwriaeth arfaethedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor. Cytunwyd y dylai'r Panel Cadeiryddion ystyried a ddylai hyn ddod yn arfer ar gyfer pob pwyllgor pwnc.
**Camau i'w cymryd: Yr Ysgrifenyddiaeth i ysgrifennu at y Panel Cadeiryddion.**

**5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau**

BC180-02

5.1 Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod y papur hwn yn nodi cynnig i newid y weithdrefn o ran Cwestiynau i'r Prif Weinidog yn sgil yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad. Dywedodd Trefnydd y Cynulliad fod y Cynulliad yn fodlon â'r argymhelliad y byddai unrhyw gwestiwn yn cael ei ganiatáu i'r Prif Weinidog ar unrhyw bwnc o fewn cylch gwaith y Cynulliad. Cytunodd y Pwyllgor y dylid gwneud y newidiadau i'r Canllawiau a'u cyhoeddi fel bod y trefniadau newydd yn dod i rym o ddydd Mawrth 25 Mehefin.

**6. Y Pwyllgorau**

**7. Busnes arfaethedig**

(i) Busnes yr Wythnos Hon

7.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur BC212-02 a oedd yn rhoi manylion am fusnes y Cynulliad y cytunwyd arno ar gyfer yr wythnos.

7.2 Dywedodd Trefnydd y Cynulliad fod y datganiad ar ymweliad Jenny Randerson â Chyngor Prydain-Iwerddon a oedd wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mawrth18 Mehefin wedi'i symud i ddydd Iau 20 Mehefin. Dywedodd y byddai'r ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Materion Gwledig ar TGCh yng nghefn gwlad Cymru, a oedd wedi'i threfnu ar gyfer dydd Mawrth 18 Mehefin, yn cael ei symud i naill ai ddydd Iau 11 Gorffennaf neu ddydd Iau 18 Gorffennaf. Yn eu lle, byddai datganiad gan Edwina Hart ar Consignia a datganiad gan y Prif Weinidog ar ad-drefnu'r Cabinet.

7.3 Dywedodd Trefnydd y Cynulliad hefyd fod y cynigion a ganlyn, a oedd wedi'u trefnu ar gyfer dydd Iau 20 Mehefin, wedi'u gohirio tan 18 Gorffennaf -

- Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2002
- Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2002

7.4 Dywedodd Jocelyn Davies fod Comisiwn Hawliau Dynol Cymru wedi cwrdd â Chyd-bwyllgor Senedd y DU ar Hawliau Dynol yn ddiweddar.

Gofynnodd a fyddai Trefnydd y Cynulliad yn gwneud datganiad ar hyn yn rhinwedd ei swydd fel y Gweinidog dros Hawliau Dynol.  Cytunodd Trefnydd y Cynulliad i'r cais hwn.

(ii) Datganiad Busnes Drafft

7.5 Nododd y Pwyllgor ddatganiad arfaethedig y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad ynghylch trefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn dydd Mawrth 25 Mehefin, dydd Mawrth 2 Gorffennaf a dydd Mawrth 9 Gorffennaf.

7.6 Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad fod un newid i'r busnes a amlinellwyd yn y Datganiad Busnes Drafft.  Roedd dadl ar Orchymyn Mordwyo Gwy wedi'i threfnu ar gyfer dydd Iau 27 Mehefin.

**8. Materion a gyfeiriwyd gan y cyfarfod llawn**

**9. Adolygu Rheolau Sefydlog**

BC210-02

9.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y papur ar yr ail gyfres o newidiadau i'r Rheolau Sefydlog yn sgil yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad.  Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor na ddylai'r cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 6.3 er mwyn diogelu'r ddadl fer amharu ar yr  amser sydd ar gael ar gyfer dadleuon y pleidiau lleiafrifol.  Cytunodd y Pwyllgor i ymgynghori â'r grwpiau a dod nôl at y mater yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Busnes.

BC211-02

9.2 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y papur ar gynigion ar gyfer delio â deisebau sy'n cael eu hanfon i'r Cynulliad a chytunodd y byddai'n ymgynghori â'r grwpiau ac yn dod nôl at y mater yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Busnes.

**10. Dyfarniadau'r Llywydd**

**11. Unrhyw fater arall**

11.1  Gofynnodd y Dirprwy Lywydd a fyddai Trefnydd y Cynulliad yn rhoi manylion portffolios diwygiedig Gweinidogion i'r Ysgrifenyddiaeth ar ôl ad-drefnu'r Cabinet.  Cytunodd Trefnydd y Cynulliad i'r cais hwn.
**Camau i'w cymryd:  Trefnydd y Cynulliad i roi'r wybodaeth i'r Ysgrifenyddiaeth.**

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**